Cynnal a Gwella'r Ysgolion
Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes

RHONDDA CYNON TAF

HYDREF 07

Steve Lamb
Cyfarwyddwr Gwasanaeth Cynnal a Gwella'r Ysgolion

Dathlu-mae pob un ohonon ni'n gwybod ei fod yn rhan anhepgor o ddysgu. Pitw fydd unrhyw gynnydd sydd heb rywbeth i'ch ysgogi chi. Bydd tystiolaeth weladwy o'r modd gall llwyddiant fod yn ysgogiad wastad yn fodd o greu momentwm. Dyma'r tymor sy'n gyfle i ddathlu llwyddiannau'r tymor diwethaf. Seremonïau i ddathlu llwyddiannau ysgol a chymuned, Myfyrwyr y Flwyddyn, ennill cymwysterau CPCP, cydnabod penaethiaid sy'n ymddeol, dathlu llwyddiannau TGAU a Safon Uwch wrth i fyfyrwyr ennill y graddau gorau eto hyd yn hyn, gwobr swyddog yr AALl: pob un achlysur yn dystiolaeth bod ein gwaith ni'n addas ac yn effeithiol. Gobeithio bydd y dathliadau yn ysgogiad pellach inni ymfalchïo yng nghyraeddiadau plant, pobl ifainc, eu teuluoedd, staff a llywodraethwyr fel ei gilydd.

Myfyriwr y Flwyddyn 2007—Griffin Mill *Gareth Rees—Addysg ôl-16*

Peugeot 206 newydd sbon ac yswiriant—dyna'r car roedd Bethan John o Ysgol Gyfun Treorci'n ei yrru o Westy'r Holland House yn ôl ym Medi 2007.

A hithau'n bedwerydd enillydd gwobr Myfyriwr y Flwyddyn Griffin Mill Rhondda Cynon Taf, mae'r disgybl 18 oed yn dilyn cwrs meddygaeth erbyn hyn yng Nghaerdydd.

Bu'r cinio gwobrwyo yn ddathliad o fyfyrwyr mwyaf amlwg ysgolion cyfun RhCT o gael eu henwebu gan eu hathrawon a'u cyddisgyblion. Cafodd yr 18 disgybl lwcus y cyfle i gwrdd â'i gilydd yn achlysur antur awyr agored a chyfarfod â'r beirniad, sefrheolwr-gyfarwyddwr Griffin Mill, Anthony Griffin.

"Roedd hi'n dasg anodd iawn i ddewis enillydd", meddai. "Roedd safon mor dda eleni."

Roedd tair gwobr ranbarthol hefyd: Emma Cope o Goleg Cymuned Tonypandy (rhanbarth Cwm Rhondda); Luke Robbins Ross o Ysgol Gyfun y Pant (rhanbarth Taf-elái) a Matthew Williams o Ysgol Gyfun. Aberdâr y Bechgyn (rhanbarth Cwm Cynon).

Cafodd hap wobrau eu cyflwyno yn ogystal: Matthew Barnes Ysgol Gyfun Aberdâr y Bechgyn am ei waith cymunedol answyddogol wedi gwisgo fel Siôn Corn; Samantha Williams o Aberpennar am berswadio'r merched i gymryd rhan yn achlysur awyr agored 'gyrru oddi ar y ffordd'; Bethan Ross o Garth Olwg am gynrychioli RhCT yn Borneo, Katie Foster o Ysgol Sant Ioan am ei medrau 'gyrru oddi ar y ffordd'.

Wynebu'r Her *Sue Kibby, Cydlynydd Gwasanaeth Cynnal Dysgu*

Mae Ysgol Gyfun Treorci wedi ennill Gwobr Her (Challenge Award), gwobr sy'n cael ei roi gan Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Plant Galluog mewn Addysg. Mae'r wobr yn gydnabyddiaeth o ddarpariaeth yr ysgol gyfan ar gyfer y disgyblion mwyaf galluog a thalentog.

Dyma gamp aruthrol-dim ond un ysgol arall sy wedi derbyn y wobr yng Nghymru cyn hyn - cyn Ysgol Gyfun Treorci

Mae'r Pennaeth, Cydlynwyr MAT (More Able and Talented) a PHAWB o staff Ysgol Gyfun Treorci wedi gweithio'n ddiwyd ac yn gyson i gael yr achrediad allanol yma. Gall llywodraethwyr, rhieni a disgyblion ymfalchïo'n fawr yn y wobr yma-o ran eu hysgol a Rhondda Cynon Taf fel ei gilydd.

Gweler www.nace.co.uk i gael rhagor o wybodaeth am y wobr.

Dolennau cyswllt: Gwasanaethau Cynnal a Gwella'r Ysgolion:

Gwella'r Ysgolion
01443 744035/6
(Cynradd ac Uwchradd)

Materion Prif Ffrwd
01443 744015

ESIS
01443 827500

Sort Orau
01443 744386

Llywodraethu a Chysylltiadau
01443 744180

Gwasanaeth Cerdd
01443 744017

Cynrychiolwyr y Penaethiaid

Gill Coleman – Ysgol Gynradd Dinas Isaf
Lisa Bailey – Ysgol G Trerobart
Andrew Manley – Ysgol G Hirwaun
Marian Roberts – Ysgol GG Bodringallt
Pat O'Malley – Ysgol G Parc-y-Darren
David Davies – Ysgol G y Cefn
Gareth Evans—Y G Y Dolau
Philippa Thomas— Y Comin
Ann Morris – Ysgol Gynradd Llanhari
Elaine Keeble – Tonyrefail
David Murphy – Ysgol Ioan Fedyddiwr
Stephan Parry – Tonypandy
Ian Machin – Ysgol Aberdâr y Bechgyn

GWASANAETH CERDD RhCT

Rachel Kilby, Pennaeth Gwasanaeth Cerdd

Carfanau Allgyrsiol Newydd

- ◊ **Côr y Plant**
- ◊ **Dosbarth Theori**
- ◊ **Samba Iau**
- ◊ **Samba Hŷn**
- ◊ **Gitâr Iau**
- ◊ **Cerddorfa Bontio**
- ◊ **Pres Cwm Cynon**

Amcan y grwpiau yw denu disgyblion dydyn ni ddim yn eu denu nhw fel arfer, yn hytrach na rhywbeth ychwanegol i'r disgyblion hynny sy'n cymryd rhan ym mhopeth arall. Byddwn ni'n ymgynghori ag ysgolion i ddatblygu'r cynllun.

Bydd pob carfan allgyrsiol yn cwrdd bob dydd Iau, Gwener a Sadwrn yn Ysgol Uwchradd Pontypridd o hyn ymlaen, ac eithrio am fand Pres Cwm Cynon sy'n cyfarfod yn ysgol Gyfun Aberdâr y Merched. Bydd Band Chwyth Llantrisant a'r Band Pres i Ddechreuwyr yn parhau i gyfarfod yn Llantrisant ar ddyddiau Llun.



Gweithdai a Phriosectau

Mae **Gwobr Yehudi Menuin** yn cyrraedd Caerdydd fis Ebrill nesaf ac rydyn ni wedi trefnu eisoes i fod yn rhan o ddosbarth meistri posibl; gweithdai a chyngerdd ysgolion i'w cynnal yn y Miwni. Mae'r Gwasanaeth Cerdd yn cydweithio ag uned Gwasanaethau Diwylliannol i ddatblygu cyfres o **Weithdai Cerddoriaeth Draddodiadol** o dan nawdd TRAC. Rydyn ni'n gobeithio datblygu strategaeth ganu ar y cyd ag **Ysgol Eglwys Gadeiriol Llandaf** a threfnu gwyl bosibl yn yr Eglwys Gadeiriol. Yn ogystal â hynny, mae trefniadau cynnar ar waith i gydweithio ag Opera Genedlaethol Cymru.

Prosiectau Offerynnol

Ar ôl arbrawf llwyddiannus yng Nghwm Cynon, mae Prosiect Pres Taf-elái wedi cyflwyno offerynnau pres i tua 20 o ysgolion cynradd yn ardal Taf-elái erbyn hyn yn ogystal. Dylai ysgolion uwchradd weld yr effaith cyn hir. Llwyddodd menter corsen ddwbl yn Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant i feithrin 2 o chwaraewyr obo a 2 o chwaraewyr baswn-bach ac mae'r disgyblion yn dilyn safon Gradd 1. Mae cyflwyno'r baswn-bach yn Ysgol Gynradd Pont-y-clun wedi bod yn llwyddiant hefyd. Rydyn ni'n gobeithio parhau â'r fenter yma.

Cyrsiau

Rydyn ni'n trefnu cyfres o **gyrsiau undydd** ar gyfer offerynwyr a chantorion.. Byddwn ni'n trefnu **cwrs pres** preswyl arall a threfnu **cwrs roc** newydd. Hefyd, bydd **diwrnod Jazz** yn ystod tymor yr haf a chyfres o weithdai **Cerddoriaeth Draddodiadol**.

Gwobrau Treftadaeth 2006-07
Cyraeddiadau Ysgolion RhCT

Dosbarth MEITHRIN

YSGOL GYNRADD GYMRAEG BODRINGALLT - gwobr Syr Julian Hodge (Sefydliad Jane Hodge) : £500)
Teitl y Prosiect: "Ble mae'r crocodeil?"

YSGOL BABANOD Y MAERDY— gwobr y Post Brenhinol (Gwobr: £250)
Teitl y Prosiect: "Ar lan y môr"

Dosbarth CYNRADD

YSGOL GYNRADD Y PARC - gwobr Legal a General (Gwobr: £1,000)
Teitl: "Cwmparc Bombings Memorial"

YSGOL GYNRADD BODRINGALLT - gwobr Admiral Group plc (Gwobr £500)
Teitl y Prosiect: "Tŷ Bodringallt"

YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRONLLWYN - Gwobr Goffa Trefor Rees Cymdeithas Hanes Llantrisant a'r Cylch Trefor Rees - £200

Teitl y Prosiect: "Hanes yr Ysgol 1912 - 2007"

YSGOL GYNRADD PENTRE - gwobr HSBC (Gwobr £100) *Teitl:* "Cwm Rhondda Forest to Fossil Fuel"

Dosbarth UWCHRADD

YSGOL GYFUN CYMUNED Y PORTH - gwobr Sefydliad Eustory, Körber (Gwobr: Nwyddau)
Teitl y Prosiect: "Selaw - A Reflection of Wales"

COLEG CYMUNED TONYPANDY - gwobr Admiral Group plc (Gwobr: £1,000)
Teitl y Prosiect: "'Our Rhondda"

YSGOL GYFUN BLAENGWAWR— gwobr Banc Barclays (Gwobr: £500)
Teitl y Prosiect: "Italians in South Wales"

YSGOL GYFUN TONYREFAIL gwobr Comisiwn Henebion Brenhinol Cymru (Gwobr: £250)
Teitl y Prosiect: "The History of the Industrial Valleys of South Wales"

Dosbarth ARBENNIG

YSGOL GYFUN BLAENGWAWR— UNED ADDYSG ARBENNIG— Gwobr BAE (Nwyddau) a gwobr ***David Maddox*** £50
Teitl y Prosiect: "Italians in South Wales"

Cynllun TEACHING TALK
Selwyn Jones,
Cynnal a Gwella'r Ysgolion.

Mae'r rhaglen lwyddiannus ***Teaching Talk*** yn cael ei gyflwyno ledled yr awdurdod. Mrs Paula Johnson sy wedi cael ei phenodi i hwyluso'r hyfforddiant a'r gwaith cyflwyno ar gyfer y rhaglen sy'n canolbwyntio ar Siarad a Gwrando, yn enwedig i'n disgyblion Addysg y Blynyddoedd Cyntaf a CA1. Mae'r cynllun-sy'n cael ei gynnal mewn grwpiau bychain- yn pennu disgyblion fyddai'n elwa fwyaf o strategaeth camu i mewn. Yn ogystal â hynny, mae'n hwyluso'r broses atgyfeirio i arbenigwyr laith a Lleferydd lawer yn gynt na'r arfer.

Agwedd clwstwr yw sail cyflwyno'r rhaglen ac mae Paula yn gweithio gydag ysgolion unigol o'r clwstwr am hanner tymor h.y. chwe sesiwn.

Mae Paula yn hyfforddi staff sut i bennu disgyblion, asesu a chynnal strategaethau i wella medrau siarad a gwrando disgyblion.

Dechreuodd rhaglen yr awdurdod yn Ebrill 2007 yng nghlwstwr Glynrhedynog; dechreuodd clystyrau Tonyrefail a Phencoed yn ystod ail hanner tymor yr haf. Mae Paula wedi bod yn gweithio gyda chlwstwr Tonypandy yn ystod dechrau tymor yr hydref i'w ddilyn gan glwstwr Treorci hyd at y Nadolig. Bydd Paula yn gweithio gyda chlystyrau Ddraenen Wen ac Ysgol Uwchradd Pontypridd.

Bydd pob clwstwr yn cael sylw Paula cyn pen dwy flynedd ei chytundeb.

Darllen Miliwn o Eiriau

Rhowch wybod i drefnwyr Darllen Miliwn o Eiriau yng Nghymru am yr holl filiwnyddion newydd o ysgolion. Rydyn ni eisiau dangos pa mor effeithiol a llwyddiannus mae'r cynllun gwych yma wedi bod yn Rhondda Cynon Taf.

Os hoffech chi gyfrannu at rifyn nesaf y cylchlythyr - rhoi'r newyddion diweddaraf ynghylch cynllun neu wybodaeth hoffech chi'i rhannu gyda ni er enghraifft - ffoniwch Kris Oakey – 01443 744036 – yn Nhy Trevithick.